**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Gyfaill,

**Ymgynghoriad: Cymru Wrth-hiliol**

Mae **Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** y Senedd yn cynnal ymchwiliad sy'n edrych ar y modd y caiff y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ei weithredu a'i gyflwyno. Nod y Cynllun yw adeiladu Cymru wrth-hiliol, gan fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol a systemig. Mewn cyfarfod bord gron a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2023, tynnodd randdeiliaid sylw at faterion yn ymwneud â gweithredu a chyflawni'r cynllun yn gyffredinol, a mynegi pryderon yn y meysydd polisi a ganlyn:

- Iechyd: mae pryderon yn cynnwys defnyddio plant fel cyfieithwyr mewn lleoliadau gofal iechyd.
- Addysg: mae pryderon yn cynnwys hiliaeth mewn ysgolion, hyfforddiant a sgiliau, bylchau cyrhaeddiad, a rhwystrau mewn addysg uwch.
- Tai: mae pryderon yn cynnwys lefelau isel o ymwybyddiaeth am y cynllun a diffyg ymgysylltu â landlordiaid preifat.
- Trosedd a Chyfiawnder: pryderon ynghylch diffyg gweithredu ar adroddiadau am hiliaeth, mynd i'r afael â 'hiliaeth bob dydd' a mathau amlwg o hiliaeth wedi'u targedu at grwpiau penodol (gan gynnwys ymfudwyr a ffoaduriaid) ac anghymesuredd o ran hil yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i archwilio'r materion hyn ymhellach drwy gynnal ymchwiliad i effeithiolrwydd y modd y caiff y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ei weithredu a'i gyflawni.

Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei drafodaethau ar yr ymchwiliad. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, byddai'n ddefnyddiol cael eich sylwadau yn ymateb i'r cylch gorchwyl isod:

- Ystyried effeithiolrwydd camau Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r cynllun, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei wneud i 'arwain drwy esiampl' o ran mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol a thrawslywodraethol ynghylch hiliaeth.

- Ystyried cynnydd a threfniadau monitro'r Cynllun, gan gynnwys rôl y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol, iechyd, addysg), y trydydd sector a, phan fo'n gymwys, y sector preifat.

- Ymchwilio i gynnydd yr Uned Gwahaniaethau ar sail Hil, a phenderfynu a oes bylchau o ran casglu data ac a yw'r data'n cael eu dadansoddi'n effeithiol.

- Ymchwilio i ba sianelau cyfathrebu sydd wedi'u sefydlu i sicrhau bod pobl â phrofiad bywyd yn cael gwybod am gynnydd y cynllun a pha newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'r cynllun.

- Gwerthuso effeithiolrwydd y Cynllun yn ei flwyddyn gyntaf, gan gynnwys a yw camau gweithredu wedi cael eu cyflawni, beth yw'r canlyniadau allweddol hyd yn hyn, a darganfod pam na weithredwyd camau sy'n weddill.

- Helpu i ddeall yn well pa ymyriadau eraill sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun ac a oes rhwystrau rhag gweithredu'r cynllun.

O ystyried pwysigrwydd croestoriadedd, bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried sut y cafodd hunaniaethau croestoriadol pobl eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu'r Cynllun.

Os hoffech chi gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch sylwadau at: **SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru**

Dylai ymatebion gyrraedd erbyn 6 Hydref 2023.

## Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y **canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau**.

## Polisi Dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Rydym yn disgwyl i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Fel rheol byddwn yn cyhoeddi gohebiaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ar ein gwefan. Os ydych wedi ymateb yn bersonol, bydd eich enw'n cael ei gyhoeddi ynghyd â'ch cyfraniad, oni bai eich bod wedi gofyn i'ch cyfraniad fod yn ddienw. Os ydych wedi ymateb yn eich rôl broffesiynol, bydd y fersiwn o'ch ymateb a gyhoeddir yn cynnwys eich enw, teitl eich swydd/rôl os yw'n berthnasol, ac enw eich sefydliad.

Manylion cyswllt

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1SN

E-bost:**SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru**
Ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.